OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1351 (Cy.127)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 2 Mehefin 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 4 Mehefin 2009
Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), mae Gweinidogion Cymru, gan eu bod o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o roi sylw i'w amcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir iddo drwy hyn ac, yn unol ag adran 7(2), ar ôl cynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ymddangos iddynt ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2009 ac eithrio erthygl 2(2)(a) a (3)(b) a ddaw i rym ar 12 Hydref 2009 ac erthygl 2(2)(b) a (3)(a) a ddaw i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

2.—(1) Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**3**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 o'r Atodlen,

(a) ym mharagraff 2 yn lle "adran 3(3)(a) i (c)" rhodder "adran 3(3)(aa), (b)";

(b) ar ôl paragraff 3 mewnosoder y canlynol —

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2000/1941 (Cy.139), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201), O.S. 2005/68 (Cy.6) ac O.S. 2006/1341 (Cy.132).